Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

1 Mai 2019

**RHEOLIADAU CONTRACTAU GWAHANIAETH (DYRANNU) 2014**
**HYSBYSIAD CYLCH DYRANNU AR GYFER Y TRYDYDD CYLCH DYRANNU**

Mae'r hysbysiad hwn wedi'i wneud yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Contractau Gwahaniaeth (Dyrannu) 2014 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau Dyrannu") ac mae wedi'i roi i'r canlynol:

(a) National Grid Electricity System Operator Ltd; a

(b) Low Carbon Contracts Company Ltd.


Drwy'r hysbysiad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn sefydlu'r trydydd cylch dyrannu o dan y Rheoliadau Dyrannu ac mae'r canlynol yn gymwys i'r cylch hwn-

- **dyddiad cychwyn** y cylch yw **29 Mai 2019**;
- y **dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** yn y cylch yw **18 Mehefin 2019**;
- **dyddiad diwedd** y cylch yw **29 Tachwedd 2019** ac
- mae'r **Blynyddoedd Cyflawni 2023/24 a 2024/25** yn gymwys i gontractau gwahaniaeth a ddyrennir o ganlyniad i'r cylch.

Mae'r trydydd cylch dyrannu yn gymwys i gynhyrchwyr cymwys o ran y mathau canlynol o orsaf gynhyrchu cymwys:

- Technolegau Trosi Uwch
- Treulio Anaerobig (>5MW)
- Biomas Penodol gyda CHP
- Geothermol
- Gwynt ar y Môr
- Gwynt ar Ynysoedd Pellennig (>5MW)
- Ffrwd Lanw
- Tonnau

**LLOFNOD**



Ashley Ibbett, Cyfarwyddwr Trydan Glân, Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Dros ac ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

**DYDDIEDIG**: 1 Mai 2019